



Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru
Wales Flood and Coastal Erosion Committee

Adroddiad Blynyddol 2021



Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru
Wales Flood and Coastal Erosion Committee

CYNNWYS

	Page
Rhagair	3
1. Sut Rydym yn Gweithredu	4
2. Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru	6
3. Y Cynnydd yn 2020–21	10
4. Edrych tua'r Dyfodol	14

Atodiadau

Atodiad 1	Cylch Gorchwyl y Pwyllgor	16
Atodiad 2	Taliadau Cydnabyddiaeth a Lwfansau	17



Rhagair

1. Cafodd y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol ei sefydlu gan Adran 81 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016¹ i gynghori Gweinidogion Cymru ar bob agwedd ar y gwaith o reoli risg llifogydd ac erydu arfordirol. Dyma ein hail adroddiad blynyddol. Daw'n amlwg o'r adroddiad hwn bod y Pwyllgor wedi cael blwyddyn brysur iawn arall wrth ddatblygu a rhoi'r cyngor hwnnw. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn disgrifio'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

2. Trwy orfod gweithio yn ystod y pandemig, mae hi wedi bod yn flwyddyn anodd iawn, a bu'n amhosibl cynnal y cyfarfod oedd i fod cael ei gynnal ym mis Mai 2020. Mae pob cyfarfod ers hynny wedi bod ar-lein. Rydym yn obeithiol y bydd modd dod ynghyd ar gyfer y cyfarfod sydd ar y gweill yng Nghasnewydd ym mis Medi 2021.

3. Mae llifogydd y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos sut mae argyfwng yr hinsawdd wedi effeithio ar bobl gyffredin mewn cymunedau a busnesau ledled Cymru. Mae canlyniadau'r newid yn yr hinsawdd ar ein gwaethaf eisoes. Ac mae gwaddol ein diwydiant glo wedi dod yn fwyfwy amlwg hefyd o ran cyfrannu at risg llifogydd. Mae'r digwyddiadau hyn wedi dangos bod angen i ni wneud rhagor ar fyrder i gryfhau ein gallu i wrthsefyll llifogydd. Mae'r llifogydd afonydd a dŵr wyneb a brofwyd yn dal yn fyw iawn yn y cof.

4. Mae'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol,² a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, hefyd yn pwysleisio, gyda lefelau'r môr yn codi, bod angen rhoi blaenoriaeth i gynllunio a gweithredu hirdymor mewn ardaloedd arfordirol. Yn enwedig o ystyried pwysigrwydd yr arfordir i'n cymunedau, ein busnesau a'r amgylchedd, gyda thros 60% o boblogaeth Cymru yn byw ac yn gweithio ar yr arfordir.

5. Mae'r Strategaeth Genedlaethol newydd yn gam enfawr ymlaen o ran rhoi'r arweiniad sydd ei angen i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae'r Pwyllgor yn benderfynol o chwarae rhan lawn yn y gwaith o roi'r Strategaeth ar waith. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'n fanwl rôl y Pwyllgor wrth gynghori Gweinidogion yn hyn o beth. Rydym wrthi'n paratoli adroddiadau ar newid deddfwriaethol ac ar sut i gael y gorau o adnoddau, a bydd y ddau yn rhoi Mesurau yn y Strategaeth Genedlaethol ar waith.

6. Fel y gwelwch yn ein hymatebion i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, mae ein cyngor yn rhychwantu portffolios nifer o Weinidogion. Gall ymatebion i ymgynghoriadau gymryd amser cyn troi'n newidiadau ym meysydd polisi'r Llywodraeth, ond roedd yn braf gweld polisi ar lifogydd yn cael ei ychwanegu at Ddyfodol Cymru: Cynllun Cenedlaethol 2040 o ganlyniad uniongyrchol i gyngor y Pwyllgor.

7. Wrth i'r risgiau rydym yn eu hwynebu gynyddu, mae angen gweithio'n galetach fel bod gennym raglen aml-flwyddyn tymor hwy effeithiol o weithgarwch rheoli perygl. Rhaid i reoli dŵr a pherygl llifogydd fod yn ystyriaeth sylfaenol wrth benderfynu ble i leoli pobl, eiddo, cymunedau a busnesau. Mae angen deialog ehangach a di-dor ledled Cymru ynglŷn â sut y dylem ymateb i berygl llifogydd. Bydd ein gallu i reoli a lliniaru perygl llifogydd yn llwyddiannus yn ffactor hollbwysig wrth sicrhau dyfodol llwyddiannus i Gymru.

¹ <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/contents/enacted/welsh>

² [Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol](#)

Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru
Wales Flood and Coastal Erosion Committee

Martin Buckle,
Cadeirydd y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol



1. Sut Rydym yn Gweithredu

Aelodau'r Pwyllgor

- 1.1 Penodir Aelodau'r Pwyllgor (gweler y tabl isod) am gyfnod o dair blynedd. Mae'r holl aelodau presennol wedi gwasanaethu ar y Pwyllgor am ddwy flynedd:

Paul Blackman	Natalie Haines	Karen Potter
Martin Buckle (Cadeirydd)	David Harris	Andrew Stone
Lorna Davis	Anne-Marie Moon	Darren Thomas
Jean-Francois Dulong	Jeremy Parr	Michael Wellington
Geraint Edwards	Adrian Philpott	Catherine Wilson

Cyfarfodydd y Pwyllgor

- 1.2 Mae'r Pwyllgor Llawn yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn. Mae'r holl agendâu a chofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Pwyllgor <https://llyw.cymru/pwyllgor-llifogydd-erydu-arfordirol>. Mae pob papur, ar wahân i'r rheini sy'n cynnwys materion cyfrinachol, ar gael trwy Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor:

floodcoastalrisk@gov.wales

- 1.3 Dyma gyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd yn 2020-21. Cafodd y cyfarfod a oedd i fod cael ei gynnal ym mis Mai 2020 ei ganslo oherwydd y pandemig:

Pwyllgor	Dyddiad	Lleoliad
FCEC4	17 Medi 2020	Rhith-gyfarfod
FCEC5	28 Ionawr 2021	Rhith-gyfarfod

- 1.4 Yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2021, trafododd y Pwyllgor y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Mae'r pandemig wedi dangos bod manteision cynnal rhai cyfarfodydd o bell. Fodd bynnag, nid oedd y Pwyllgor wedi cyfarfod yn gorfforol ers mis Ionawr 2020, a chytunwyd y dylid ceisio gwneud hynny eto cyn gynted â phosibl. Cytunwyd wedyn y bydd bob yn ail gyfarfod o'r Pwyllgor yn cael eu cynnal o bell sy'n golygu y bydd y Pwyllgor yn cwrdd yn gorfforol bob wyth mis, ac felly yn un o'r tri rhanbarth unwaith bob dwy flynedd. Fodd bynnag, byddai agendâu'r Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar un o'r tri rhanbarth unwaith bob blwyddyn.

Cylch Gorchwyl

- 1.5 Mae'r cylch gorchwyl i'w weld yn Atodiad 1 ac yn deillio o Reoliadau Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru 2017.³

Taliadau Cydnabyddiaeth a Lwfansau

- 1.6 Mae manylion taliadau cydnabyddiaeth a lwfansau i'w gweld yn Atodiad 2.

Y Rhaglen Waith

- 1.7 Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2020, diweddarodd y Pwyllgor ei Raglen Waith tair blynedd, ar gyfer 2022-23. Mae'r Rhaglen Waith newydd yn ymgorffori

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/827/contents/made/welsh>



newidiadau sy'n deillio o fersiwn derfynol y Strategaeth Genedlaethol. Mae'r gyfres wreiddiol o un ar ddeg o Themâu Gwaith, sef sail y Rhaglen Waith gyntaf, bellach wedi'i hymestyn i gynnwys deuddeg thema. Mae'r thema newydd yn ymwneud â gweithio gyda CLILC ac awdurdodau lleol i bennu gofynion lefel uchel a chanllawiau ategol ar gyfer adroddiadau Adran 19 yr ymchwiliadau i lifogydd⁴ fydd yn cael eu paratoi gan awdurdodau lleol yn dilyn llifogydd difrifol.

- 1.8 Cafodd y Rhaglen Waith ei chymeradwyo gan y Gweinidog cyn pumed cyfarfod y Pwyllgor⁵ ym mis Ionawr 2021. Mae bellach wedi cael ei diweddarau i adlewyrchu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a'r adrefnu pellach roedd angen ei wneud o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r gweithgareddau pob un o'r themâu yn cael eu crynhoi yn adrannau'r adroddiad hwn.

Is-bwyllgorau

- 1.9 I weithio ar ddwy o'r themâu yn y Rhaglen Waith, mae'r Pwyllgor wedi sefydlu dau is-bwyllgor. Yr Is-bwyllgor Adnoddau fydd yn gweithio ar Thema 4: "*Ymchwilio i gyfleoedd i gynyddu'r adnoddau ar gyfer FCERM yng Nghymru, gan gynnwys cyfraniadau ariannu partneriaethau*". Cyfarfu am y tro cyntaf ym mis Awst 2020, a chafodd dri chyfarfod arall yn 2020-21.
- 1.10 Hefyd, cafodd Is-bwyllgor Polisi a Deddfwriaeth ei gyfarfod cyntaf ym mis Rhagfyr 2020, a'i ail gyfarfod ym mis Mawrth 2021. Mae'r Is-bwyllgor hwn yn datblygu Thema 5 y Rhaglen Waith: "*Adolygu'r polisi a'r deddfwriaeth sy'n ymwneud â FCERM yng Nghymru*".
- 1.11 Nodir adroddiadau arfaethedig gan yr Is-bwyllgorau yn Adran 3 o'r adroddiad hwn. Dyma aelodau'r Is-bwyllgorau:

Is-bwyllgor Adnoddau

Martin Buckle (Cadeirydd)	Anne-Marie Moon	Karen Potter
Jean-Francois Dulong	Jeremy Parr	Darren Thomas

Is-bwyllgor Polisi a Deddfwriaeth

Paul Blackman	Jeremy Parr	Andrew Stone
Lorna Davis	Adrian Philpott (Cadeirydd)	Michael Wellington
Natalie Haines		

⁴ [Flood and Water Management Act 2010 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

⁵ [Cyfarfod y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol: 28 Ionawr 2021](#)



2. Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

Y Strategaeth Genedlaethol – Thema Waith 1 y Pwyllgor

- 2.1 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn derfynol y Strategaeth Genedlaethol ym mis Hydref 2020 ac mae'n cynrychioli cam mawr ymlaen i fynd i'r afael â'r heriau y mae Cymru'n eu hwynebu ym maes rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Hon yw'r strategaeth genedlaethol gyntaf i ymgorffori deddfwriaeth Gymreig am yr amgylchedd, llesiant a draenio cynaliadwy. Mae'r Pwyllgor wedi helpu ei pharatoi ac wedi bod yn allweddol o ran ei siapio a'i chryfhau.
- 2.2 Wrth groesawu fersiwn derfynol y Strategaeth, roeddem yn falch o weld bod pedwar mesur wedi'u hychwanegu at yr ugain gwreiddiol i'w cryfhau. Mae'r rhain yn cwmpasu cynigion sy'n canolbwyntio ar y canlynol:
- Gwella'r drefn adrodd ar weithredu Cynlluniau Rheoli Traethlin;
 - Sicrhau bod dulliau Rheoli Llifogydd Naturiol yn cael eu hystyried ar draws polisïau rheoli tir a dŵr ehangach;
 - Llunio canllawiau cliriach ar gyfer adroddiadau'r ymchwiliadau i lifogydd fydd yn cael eu paratoi gan awdurdodau lleol yn dilyn llifogydd difrifol;
 - Datblygu rhaglen fuddsoddi hirdymor o gynlluniau.
- 2.3 Helpu i ddiweddarau'r Strategaeth yw thema gyntaf Rhaglen Waith y Pwyllgor, ynghyd â'i helpu i'w rhoi ar waith, ei monitro a'i hadolygu. Mae gweddill themâu gwaith y Pwyllgor (gweler adrannau 3 a 4) i gyd yn gysylltiedig â'r gwaith o gynnal y Strategaeth Genedlaethol. Mae'r Strategaeth yn nodi 24 o fesurau, gan gynnwys tri mesur sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Pwyllgor: y cyntaf yn ystyried yr angen am newidiadau i ddeddfwriaeth; yr ail yn archwilio cyfleoedd i gynyddu'r buddsoddiad; a'r trydydd yn fesur ychwanegol ar lunio canllawiau ar gyfer adroddiadau awdurdodau lleol ar yr ymchwiliadau i lifogydd.

Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd

- 2.4 Y Senedd oedd y senedd gyntaf yn y byd i ddatgan ei bod yn argyfwng hinsawdd. Nodir ymateb Llywodraeth Cymru i argyfwng yr hinsawdd yn ei chynllun addasu i'r newid yn yr hinsawdd: Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd.⁶ Crynhoir goblygiadau'r argyfwng hinsawdd i FCERM yng Nghymru gan y Strategaeth Genedlaethol fel a ganlyn:

"Mae Cymru eisoes yn profi effeithiau andwyol yn sgil newid yn yr hinsawdd megis cynnydd yn lefel y môr, llifogydd a thywydd poeth. Mae'r dystiolaeth yn glir bod digwyddiadau tebyg i stormydd 2020 yn dod yn fwy cyffredin. Mae ymchwil gan y Swyddfa Dywydd wedi dangos bod mwy o siawns y bydd lefelau'r môr yn codi yng Nghymru, ac y byddwn yn gweld tywydd mwy stormus, rhagor o lawiad dwys a llifogydd amlach."

"Nododd Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU a gyhoeddwyd yn 2017 gynnydd mewn achosion o lifogydd arfordirol a mewndirol yn effeithio ar bobl, eiddo a seilwaith, yng Nghymru. Mae amcanestyniadau hinsawdd yn 2018 yn dangos cynnydd yn lefel y môr rhwng 28cm a 62cm ar gyfer Caerdydd o dan senario allyriadau canolig erbyn 2080. Mae goblygiadau newid yn yr hinsawdd a chynnydd yn lefel y môr yn eang a byddant yn effeithio ar bob agwedd ar"

⁶ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/ffyniant-i-bawb-cymru-syn-effro-ir-hinsawdd.pdf>



gymdeithas, gan gynnwys y sectorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, amgylcheddol ac iechyd.”

Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SuDS) yng Nghymru

- 2.5 Yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr 2021, cawsom ddiweddariad ac arolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru i roi Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010⁷ ar waith. Cafodd ei gweithredu yn 2019 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad newydd, lle mae'r arwynebedd adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy, i ymgorffori SuDS.
- 2.6 Erbyn hyn, mae gofyn am systemau draenio cydnerth ar gyfer pob datblygiad newydd mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd er mwyn iddynt allu gwrthsefyll llifogydd. Bydd cynyddu SuDS yn allweddol i ddiogelu'r amgylchedd, hyrwyddo bioamrywiaeth, ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
- 2.7 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n edrych ar ffyrdd o alinio prosesau cynllunio a rhai'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy yn well, er mwyn arbed amser a chostau i ddatblygwyr. Mae CLILC yn cynnig sefydlu prosiect lle caiff awdurdodau lleol dreialu dulliau o ymdrin â hyn. Yn ogystal, bydd diweddaru'r canllawiau cynllunio a geir yn TAN15⁸ yn gyfle i integreiddio'n well ag awdurdodau cynllunio lleol. Mae canllawiau ar gyfer SuDS amaethyddol hefyd yn cael eu paratoi. Mae adolygiad o dan arweiniad CLILC wrthi'n cael ei gynnal i edrych sut mae'r prosesau SAB yn cael eu cynnal, a bydd hyn yn cyfrannu at adolygiad ehangach Llywodraeth Cymru a gynhelir ar ôl gweithredu, a fydd yn dechrau yn ddiweddarach eleni. Mae hyn yn adlewyrchu Mesur 16 yn y Strategaeth Genedlaethol. Gallai arwain maes o law at adolygiad deddfwriaethol.

⁷ [Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010](#)

⁸ [Nodyn cyngor technegol 15 Datblygu a pherygl llifogydd](#)



3. Cynnydd yn 2020-21

Llifogydd yn 2020-21 – Stormydd Ciara, Dennis a Jorge

- 3.1 Mae 2020 a 2021 yn flynyddoedd na fyddwn yn eu hanghohio'n rhwydd, yma yng Nghymru nac yng ngweddill y byd, oherwydd y pandemig. Yn nifer o gymunedau yng Nghymru ychwanegwyd at drychineb y pandemig gan ddinistr llifogydd. I'r Pwyllgor, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfle i ni adolygu'r llifogydd eithriadol a ddigwyddodd o ganlyniad i Stormydd Ciara, Dennis a Jorge ym misoedd Chwefror a Mawrth 2020. Daeth y digwyddiadau hyn â goblygiadau'r argyfwng hinsawdd yn fyw i bobl gyffredin mewn cymunedau a busnesau ledled Cymru. Rhoddwyd pwyslais ychwanegol hefyd ar yr angen i wneud rhagor o waith ar frys i allu eu gwrthsefyll yn well, hynny yw gwneud ein hunain yn fwy cydnerth.
- 3.2 Roedd dau gyfarfod y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn wedi trafod y stormydd hyn a'u goblygiadau. Yn y cyfarfod ym mis Medi 2020⁹ cafwyd cyflwyniadau gan Gyngor Rhondda Cynon Taf (RhCT), sef yr ardal yr effeithiwyd arni fwyaf, a chan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Roedd lefelau dŵr llawer o'r llifogydd yn ddigynsail. Yn ogystal â llifogydd o'r prif afonydd, achoswyd llawer o'r llifogydd gan ddŵr wyneb a nentydd llai (cyrsiâu dŵr cyffredin), yn enwedig darnau mewn cwlfertau, y mae llawer ohonynt yn eiddo preifat. Ledled Cymru effeithiwyd ar ryw 3,000 eiddo gan lifogydd, tua hanner ohonynt yn RhCT.
- 3.3 Bu staff yr Awdurdodau Rheoli Risg yn brysur gydol cyfnod y stormydd yn ymateb i'r digwyddiadau wrth iddyn nhw ddatblygu. Chwaraeodd gwirfoddolwyr ran bwysig hefyd o ran helpu ar lefel y gymuned. Yn y misoedd ar ôl y llifogydd, bu staff yn brysur iawn yn archwilio asedau rheoli perygl llifogydd, ac yn gwneud atgyweiriadau a gwelliannau.
- 3.4 Yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr 2021, gwnaethom ystyried yr Adolygiad Rheoli Digwyddiadau o lifogydd Chwefror 2020 a baratowyd gan CNC¹⁰. Wrth ystyried cyfrifoldebau CNC ei hun, daeth yr adroddiad i'r casgliad:
- "cafodd gwasanaethau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r rolau y mae'n ymgymryd â nhw yn ystod digwyddiad llifogydd sylweddol eu profi'n ddifrifol yn ystod y cyfnod hwn ac, mewn rhai achosion, cafodd ein gwasanaethau eu hymestyn y tu hwnt i'w galluedd."
- 3.5 Nododd yr Adolygiad fod amddiffynfeydd rhag llifogydd ledled Cymru yn helpu i ddiogelu 73,000 eiddo rhag llifogydd. Yn ystod Storm Dennis yn unig, diogelwyd tua 19,000 eiddo, ond serch hynny cafodd dros 3,000 eu taro gan lifogydd. Cafodd rhai amddiffynfeydd rhag llifogydd eu gorlifo gan y llif eithafol a gafwyd. Cydnabu'r Adolygiad lawer o elfennau cadarnhaol yr ymateb gweithredol, ond nododd hefyd nifer o feysydd allweddol sydd angen eu gwella, a chawsant eu crynhoi mewn cynllun gweithredu.
- 3.6 O edrych ar y darlun ehangach, aeth yr Adolygiad yn ei flaen a dod i'r casgliad:
- "Mae'n amlwg bod rheoli cymaint o ddŵr yn heriol iawn, yn arbennig o ystyried y rhagfynegiadau ar gyfer tywydd mwy eithafol yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd. Mae angen i ni ategu amddiffynfeydd â mesurau eraill, fel dal dŵr yn ôl yn uwch i fyny o fewn y dalgylch, gwneud lle i ddŵr yn y cymoedd, ac,*

⁹ [Cyfarfod y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol: 17 Medi 2020 | LLYW.CYMRU](#)

¹⁰ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein hymateb i Storm Ciara a Storm Dennis](#)



mewn rhai achosion, yn arbennig yn ystod digwyddiadau ar y raddfa hon, derbyn y bydd llifogydd yn digwydd. Mae angen i ni hefyd wneud eiddo'n fwy diogel rhag llifogydd a buddsoddi mewn systemau rhybuddio, cymorth cymunedol a chyngor fel y gall cymunedau gymryd eu camau eu hunain er mwyn lleihau effeithiau llifogydd."

- 3.7 Yn yr adroddiad i'r Pwyllgor, gofynnodd CNC am sylwadau ar rôl bosibl y Pwyllgor wrth ystyried nifer o'r materion ehangach, gan gynnwys rhestr o wyth o gamau sy'n mynd y tu hwnt i gyfrifoldebau CNC ei hun, ac y bydd angen eu trafod gyda phartneriaid eraill. Gofynnwyd i'r Pwyllgor hefyd a allai ystyried goblygiadau'r llifogydd i Gymru gyfan a chasgliadau'r gwahanol adolygiadau sy'n cael eu cynnal gan wahanol awdurdodau.
- 3.8 O'r wyth cam gweithredu, nodwyd bod tri yn ymwneud â rhybuddion llifogydd a mobileiddio, ac y gellid eu grwpio gyda'i gilydd o safbwynt gweithredol, gyda CNC yn arwain y trafodaethau.
- 3.9 Mae pedwar o'r camau yn codi cwestiynau am lefelau gwasanaeth, disgwyliadau'r cyhoedd a'r adnoddau sydd eu hangen i ymateb iddynt. Mae'r cwestiynau hyn yn gysylltiedig ag amcanion y Strategaeth Genedlaethol, â rhaglenni ariannu cysylltiedig, ac â'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni. Nododd y Pwyllgor fod y gofyn i lunio adroddiadau Adran 18 yn ei gwneud yn bosibl monitro perfformiad y Strategaeth Genedlaethol.
- 3.10 Mae'r camau eraill, sy'n codi cwestiynau am rolau a chyfrifoldebau, a chydweithredu, yn faes sy'n peri pryder ac mae Is-bwyllgorau'r Pwyllgor yn ei gynnwys o fewn cwmpas eu hadolygiadau. Bydd yr Is-bwyllgorau hefyd yn ystyried manylion adolygiad ehangach CNC. Un o'r casgliadau sy'n deillio o'r llifogydd eithafol hyn yw bod awdurdodau lleol, wrth liniaru perygl llifogydd, wedi'u ffrwyno gan gyfyngiadau ar eu pwerau. Cyfeiriwyd y pryder hwn at yr Is-bwyllgor Polisi a Deddfwriaeth.

Storm Christoph

- 3.11 Ym mis Ionawr 2021, cafwyd rhagor o lifogydd o ganlyniad i Storm Christoph. Bu'n rhaid gofyn i drigolion rhyw 100 o gartrefi eu gadael yn Sgiwen, ger Castell-nedd, oherwydd llifogydd a darddodd o hen lofa. Bu'n rhaid gofyn i bobl adael eu cartrefi hefyd yn Nyffryn Dyfrdwy, a bu difrod sylweddol i seilwaith yn Nyffryn Clwyd. Bydd y Pwyllgor yn trafod effeithiau Storm Christoph yn ei gyfarfod ym mis Mai 2021.

Thema 2 – Adroddiadau Adran 18 Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

- 3.12 Mae gan CNC ddyletswydd o dan Adran 18 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010¹¹, i baratoi adroddiadau ar y ffordd mae perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn cael eu rheoli, a sut mae'r Strategaeth Genedlaethol yn cael ei gweithredu. Mewn ymateb i argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru¹², mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Pwyllgor gynnal adolygiad annibynnol o Adroddiadau Adran 18. Cafodd yr adroddiad ar gyfer 2016–19 ei adolygu gan y Pwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Gweinidog ym mis Ionawr 2020.

¹¹ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/contents>

¹² <https://busnes.senedd.cymru/documents/s53470/PAC5-03-16%20P4%20-%20Ymateb%20LIC%20i%20Adroddiad%20ACC%20ar%20llifogydd%20arfordirol.pdf>



- 3.13 Nododd y Pwyllgor fod adroddiadau Adran 18 yn offeryn hanfodol ar gyfer monitro hyn y Strategaeth Genedlaethol, ac fel sail wybodaeth a thystiolaeth. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gyfrannu at nodi problemau a chyfleoedd, a llunio argymhellion sy'n deillio o adroddiadau Adran 18 yn y dyfodol, ac i weithio gydag CNC i ddatblygu fframwaith ar gyfer yr un nesaf.
- 3.14 Yn y cyd-destun hwn, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2021 gyda chynigion ar gyfer dull a fformat diwygiedig ar gyfer Adroddiad nesaf Adran 18. Bydd yr adroddiad hwnnw wedi'i rannu'n ddwy. Yr elfen gyntaf fydd adroddiadau blynyddol CNC, yn adlewyrchu cylch dwy flynedd y broses Adran 18. Byddant yn disgrifio'r prif bethau y bydd CNC wedi'u gwneud, yn seiliedig ar y rhaglenni cyflawni, ac yn cynnwys gwybodaeth am lifogydd. Bydd y gwaith o baratoi'r rhan hon yn dechrau yn gynnar ym mlwyddyn ariannol 2021/22. Yr ail ran, i'w pharatoi yn gynnar yn 2022/23, fydd golwg ar ei waith ar sail yr amcanion a'r mesurau a restrir yn y Strategaeth Genedlaethol.
- 3.15 Nododd y Pwyllgor fod CNC wedi ystyried adborth y Pwyllgor ar Adroddiad diwethaf Adran 18. Pryder penodol bryd hynny oedd, er y dylai'r Adroddiad gynnwys mewnbwn gan bob Awdurdod Rheoli Risg, nad oedd rhai wedi rhoi unrhyw fewnbwn o gwbl, ac i eraill roi mewnbwn anghyflawn. Bydd angen gwerthuso'r broses symlach newydd gan gyhoeddi'r llinellau amser ymlaen llaw yn ôl ei llwyddiant i sicrhau mewnbwn cynhwysfawr. O gofio bod ganddo rôl bellach i roi'r Strategaeth Genedlaethol ar waith, bydd y Pwyllgor ei hun yn cyfrannu at Adroddiad nesaf Adran 18.

Thema 4 - "Ymchwilio i gyfleoedd i gynyddu'r adnoddau ar gyfer FCERM yng Nghymru, gan gynnwys cyfraniadau ariannu partneriaethau".

- 3.16 Mae'r Thema hon yn y Rhaglen Waith yn adlewyrchu'r ymrwymiad a osodir ar y Pwyllgor gan Fesur 24 o'r Strategaeth Genedlaethol. Er mwyn datblygu'r Thema hon, mae'r Pwyllgor wedi sefydlu Is-bwyllgor Adnoddau. Cyfarfu am y tro cyntaf ym mis Awst 2020, a chafwyd tri chyfarfod pellach yn 2020-21. Cytunodd y Pwyllgor ar Gylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor ym mis Medi 2020. Darperir ei hysgrifenyddiaeth gan Bartneriaeth Aber Afon Hafren, a gynhelir gan Brifysgol Caerdydd. Pennwyd amserlen i'r Is-bwyllgor ar gyfer cyflwyno adroddiad gydag argymhellion i'r Pwyllgor ym mis Medi 2021, ac adroddiad interim ym mis Mai 2021.
- 3.17 Diffiniwyd cwmpas gwaith yr Is-bwyllgor i gynnwys y canlynol:
- Cyllid Cyfalaf;
 - Cyllid Refeniw;
 - Sgiliau a Galluedd;
 - Y rhaglen FCERM;
 - Llywodraethu a Chydweithredu;
 - Cymunedau a'r Trydydd Sector.

Ariannu Tymor Hwyl

- 3.18 Yng nghyd-destun rhaglen waith yr Is-bwyllgor, ym mis Hydref 2020 ysgrifennodd y Cadeirydd at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, a'r Gweinidog Cyllid a Threfnydd i geisio cymorth i sefydlu rhaglenni cyllid cyfalaf a refeniw mwy tymor hir ar gyfer FCERM. Cadarnhaodd ateb a dderbyniwyd ym mis Rhagfyr fod diben ystyried ymarferoldeb a manteision posibl dull aml-flwyddyn o weithio. Fodd bynnag, roedd adolygiad gwariant Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 yn cynnig cyllideb i Gymru ar gyfer 2021-22 yn unig, gan ei gwneud yn anodd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynlluniau gwariant o 2022-



23 ymlaen. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ystyried sut y gall symud at gyllidebau aml-flwyddyn yn y dyfodol. Byddai paratoi llif tymor hwy o gynlluniau gan Awdurdodau Rheoli Risg yn helpu i gefnogi hyn.

Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

3.19 Ym mis Rhagfyr, rhoddodd y Cadeirydd, ynghyd ag Aelod o'r Pwyllgor Jeremy Parr, gyflwyniadau i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru i amlinellu gwaith yr Is-bwyllgor Adnoddau a gofyn am eu barn. Mae'r arwyddion yn awgrymu bod sylw'r Comisiwn ar bynciau eraill ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw gynlluniau i fynd i'r afael â FCERM fel rhan o lwyth gwaith eu blwyddyn gyfredol, er y cydnabyddir bod hynny'n ystyriaeth tymor hwy. Tynnodd y Comisiwn ein sylw yn arbennig at y pryderon canlynol:

- Y duedd gynyddol i gynnal datblygiadau yn yr ardaloedd hynny sydd eisoes yn cael eu diogelu gan amddiffynfeydd rhag llifogydd, gan arwain at yr angen i barhau i'w hamddiffyn rhag cynnydd yn lefelau'r môr am gost gynyddol, a'r angen i reoli a chyfyngu ar y gost gynyddol hon;
- Lle na ellir atal llifogydd, efallai y bydd angen i ni gynllunio i alluogi trefi arfordirol i rollo'n ôl mewn ffordd a reolir.

Thema 5 – Adolygu'r polisi a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â FCERM yng Nghymru

3.20 Mae'r Thema hon yn y Rhaglen Waith yn adlewyrchu Mesur 1 y Strategaeth Genedlaethol. Wrth ddatblygu'r thema hon, mae'r Pwyllgor wedi sefydlu Is-bwyllgor Polisi a Ddedfwriaeth. Cyfarfu am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2020, gydag ail gyfarfod ym mis Mawrth 2021. Cytunodd y Pwyllgor ar Gylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor ym mis Ionawr 2021. Darperir ei hysgrifenyddiaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Nod yr Is-bwyllgor yw cyflwyno adroddiad gydag argymhellion i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2022, ac adroddiad interim ym mis Medi 2021.

3.21 Mae'r Is-bwyllgor yn bwriadu canolbwyntio ei sylw ar y pynciau canlynol:

- Rheoli asedau FCERM, gan gynnwys dynodi nodweddion o dan Atodlen 1 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010;
- Rolau a chyfrifoldebau;
- Addasu i berygl llifogydd, ar yr arfordir ac ar y tir, a chryfhau i allu eu gwrthsefyll.

Thema 6 – Creu Cysylltiadau â Rhanddeiliaid Eraill

3.22 Gwnaeth y Pwyllgor gydnabod pwysigrwydd y cysylltiadau â rhanddeiliaid eraill yn fuan. Nodwyd bod Fforwm Grwpiau Arfordirol Cymru (WCGF) a'r grwpiau rheoli perygl llifogydd rhanbarthol yn gysylltiadau arbennig o bwysig. Cafodd cynigion i ffurfioli'r cysylltiadau hyn a'u cadarnhau eu gwneud gan y Pwyllgor ym mis Ionawr 2020. Ymhlith y mesurau y cytunwyd arnynt oedd:

- Y Pwyllgor i benodi aelod ychwanegol i WCGF, gyda'r Fforwm yn rhoi gwybod am hynt ei waith yn flynyddol i'r Pwyllgor;
- Cryfhau grwpiau rhanbarthol, a rhoi cyfle iddynt godi materion a gwneud sylwadau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor;
- Cryfhau cyfathrebu ar lefel Cyfarwyddwyr Awdurdodau Lleol.

Fforwm Grwpiau Arfordirol Cymru

3.23 Daeth adroddiad cyntaf y Fforwm hwn i law yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2020. Mae'r Fforwm yn dod â Chadeiryddion pedwar Grŵp Arfordirol Cymru



ynghyd, gyda Llywodraeth Cymru, CNC, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Network Rail, Canolfan Monitro Arfordir Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cynrychiolwyr y Pwyllgor ar y Fforwm yw Jean-Francois Dulong (Cadeirydd y Fforwm) a David Harris.

- 3.24 Cylch gwaith bras y Fforwm yw cydlynu a rhoi cyfeiriad, cyngor a chymorth strategol i'r grwpiau arfordirol ac i Ganolfan Monitro Arfordir Cymru, a rhannu gwybodaeth a phrofiad. Mae'r Fforwm hefyd yn chwarae rhan weithredol yn y rhaglen o adnewyddu'r Cynlluniau Rheoli Traethlin, o dan arweiniad CNC. Mae adnoddau i gefnogi gwaith y Fforwm yn brin, ond mae opsiynau i'w gwella yn cael eu hystyried. Caiff adroddiad arall gan y Fforwm ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi 2021.

Grwpiau Rheoli Perygl Llifogydd Rhanbarthol

- 3.25 Achubwyd ar y cyfle i wneud cyflwyniadau ar faterion o bwys rhanbarthol i'r Pwyllgor. Ar ôl i Gynghorau Sir Gwynedd a Sir Gâr wneud cyflwyniadau i'r Pwyllgor yn 2019/20, derbyniodd y cyfarfod ym mis Medi 2020 gyflwyniad gan Gyngor Rhondda Cynon Taf (gweler para 3.2). Yng nghyfarfod Pwyllgor Ionawr 2021, rhoddwyd cyflwyniadau gan Gyngor Conwy ar Barodrydd a Dyletswyddau Rheoli Risg Llifogydd Adweithiol a chan Gyngor Sir Ddinbych ar gynllun Rheoli Risg Arfordir Dwyrain y Rhyl.
- 3.26 Wrth ychwanegu at y ddeialog â'r grwpiau rhanbarthol, bydd eitem sefydlog yn agendâu'r Pwyllgor ynghylch cael mewnbwn ac adborth ganddynt. Mae'r grwpiau rhanbarthol hefyd wedi bod yn weithgar wrth roi mewnbwn i ddau Is-bwyllgor y Pwyllgor.

Rhanddeiliaid Eraill

- 3.27 Yn ogystal ag WCGF a'r grwpiau rhanbarthol, mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau ehangach, ac mae'r Cadeirydd yn parhau i gwrdd ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol eraill. Mae cysylltiadau â Bwrdd Rhaglen Perygl Llifogydd a'r Arfordir yn bwysig. Hefyd, o ystyried pwysigrwydd materion trawsffiniol, mae cysylltiadau yn dal i gael eu cynnal â Phwyllgorau Arfordirol a Llifogydd Rhanbarthol yn Lloegr.

Thema 7 – Cynghori ar integreiddio polisiau a blaenoriaethau mewn polisiau a deddfwriaeth eraill

- 3.28 Er nad yw'r Pwyllgor wedi edrych yn fanwl iawn eto ar y Thema hon, mae llawer o'r ymatebion yr aethpwyd i'r afael â nhw o dan Thema 10 isod yn ymwneud yn uniongyrchol â Thema 7, gan gynnwys ymatebion i ymgynghoriadau ar bolisi buddsoddi rhanbarthol ac ar gyllido amaethyddiaeth.

Thema 9 – Dylanwadu ar raglenni ymchwil a'r ymchwil sydd ei hangen, a lledaenu ffrwyth yr ymchwil honno

- 3.29 Mae hon yn Thema arall nad yw'r Pwyllgor wedi mynd i'r afael yn llawn â hi eto. Fodd bynnag, mae rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud o ran lledaenu ymchwil. Mae'r Is-bwyllgor Adnoddau a'r Is-bwyllgor Polisi a Deddfwriaeth yn dibynnu'n drwm ar bapurau academiaidd ac ymchwil wrth ddatblygu eu rhaglenni gwaith. Yng nghyfarfod mis Ionawr 2021, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad hefyd gan Dr Meghan Alexander o Brifysgol East Anglia ar ei hymchwil i alinio gweithgarwch FCERM yng Nghymru â'r agenda Llesiant¹³. Yn ogystal, mae Karen Potter a Jean-Francois Dulong, Aelodau'r Pwyllgor, yn

¹³ [Evaluation FCERM governance Wales Final Report Nov2019.pdf \(pml.ac.uk\)](#)



cyfrannu at roi cyngor ar Raglen Ymchwil a Datblygu FCERM ar y Cyd (Cymru a Lloegr), drwy eu haelodaeth o'r Grŵp Cyngori Thematig ar Ddatblygu Strategaeth a Pholisi.

Thema 10 – Ymateb i ymgynghoriadau sy'n ymwneud â FCERM yng Nghymru – Diweddariad ar Ymatebion 2019/20

- 3.30 Gydag ymgynghoriadau allweddol yn cael eu cynnal yn eithaf rheolaidd, mae llawer o waith y Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar y Thema hon. Roedd y Pwyllgor yn falch o weld bod llawer o'i gyngor ar yr ymgynghoriad ar y strategaeth genedlaethol yn 2019 i'w weld yn y fersiwn derfynol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020. Nodir y wybodaeth ddiweddaraf am ymgynghoriadau eraill yr ymatebwyd iddynt yn 2019/20 isod.

Ffermio Cynaliadwy a'n Tir; Llywodraeth Cymru, Hydref 2019

- 3.31 Roedd yr Ymgynghoriad hwn yn nodi cynigion lefel uchel ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Roeddem yn falch o weld lliniaru perygl llifogydd yn cael ei nodi fel un o ganlyniadau dymunol rheoli tir yn gynaliadwy. Dilynwyd yr ymgynghoriad hwn gan ddau gylch ymgynghori pellach yn 2020/21 (gweler isod).

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) drafft; Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2019

- 3.32 Wrth ymateb i'r FfDC drafft, mynegon ni ein pryder nad oedd y ddogfen yn nodi arwyddocâd y risg bresennol nac arfaethedig o lifogydd yn ddigonol, na'r rôl hollbwysig y gall penderfyniadau cynllunio ei chael ar leihau neu gynyddu perygl llifogydd. Dywedon ni y dylai'r FfDC nodi sut y mae perygl llifogydd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol wedi'i ystyried wrth ddatblygu ei strategaeth ofodol.
- 3.33 Ym mis Chwefror 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei fersiwn derfynol o'r FfDC, a elwir bellach yn Dyfodol Cymru: Cynllun Cenedlaethol 2040.¹⁴ Roeddem yn falch o weld ychwanegu polisi ar lifogydd, yn ogystal â'r gydnabyddiaeth y bydd angen i'r Cynlluniau Datblygu Strategol ar gyfer pob un o'r pedwar rhanbarth sicrhau bod penderfyniadau strategol ar leoliadau ar gyfer twf a seilwaith newydd yn cael eu llywio gan y gwaith o reoli perygl llifogydd.

Nodyn Cyngor Technegol Drafft 15 (TAN 15) ar Ddatblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol; Llywodraeth Cymru, Ionawr 2020

- 3.34 Gwnaethom groesawu byrdwn canolog y canllawiau cynllunio yn y diweddariad i'r drafft o TAN15, sef atal datblygiadau mewn parthau perygl llifogydd. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu am anghysondebau gyda'r FfDC drafft, a oedd yn cynnig ardaloedd twf allweddol mewn trefi a dinasoedd arfordirol a fyddai'n syrthio i barthau llifogydd lle byddai cyfyngiad ar ddatblygu. Roeddem yn teimlo bod angen gwneud mwy o waith i ddeall yn well sut y bydd yr FfDC a TAN15 yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rheoli gwrthdaro o'r fath.
- 3.35 Ar hyn o bryd, rydym yn dal i aros am ragor o waith ar TAN 15. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth frys i Lywodraeth Cymru.

Thema 10 – Ymateb i ymgynghoriadau sy'n ymwneud â FCERM yng Nghymru – Ymatebion 2020/21

¹⁴ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040.pdf>



- 3.36 Yn 2021/21, ymatebodd y Pwyllgor i'r ymgynghoriadau isod. Rydym wedi codi dyfyniadau allweddol o'r ymatebion.

Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru; Llywodraeth Cymru, Chwefror 2020

- 3.37 "A key issue which will need co-ordination at the national level will be the extent to which proposals reflect the Welsh Government's priorities for responding to the climate emergency. We feel that the framework, as well as 'aligning with other policies for capitalising on growth and tackling poverty' (p11), should also recognise the importance for our economic future of responding to the environmental challenges represented by the climate emergency. Aligning with other Welsh Government policies in this key area of concern for our future is of critical importance. These environmental challenges will have serious economic consequences if not addressed effectively. The lack of recognition within the document of the Welsh Government's own Climate Change Adaptation Plan is particularly surprising. The framework needs to address the urgency of climate change adaptation as well as mitigation."
- 3.38 "As currently proposed, it does appear that the proposed framework is missing the opportunity to fully engage with supporting businesses and communities in taking action against the challenges presented by climate change. This principle will need to be led at the national level. The framework will need to guide behavioural changes at the regional, local and community level in the way that we approach planning and investing in the places where we work and live. There is a need for greater determination in integrating responses to climate change into the Welsh Government's policy frameworks."

Lleihau Plastig Untro; Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2020

- 3.39 "We are aware that Welsh Water will, in their response to this consultation ask Welsh Government to ban wet wipes that contain plastic. Welsh Water has advised: 'Wet wipes containing plastic do not break down in the sewer like toilet paper. They block the pipes and cause homes to be flooded with sewage.' In order to reduce the flood risks to our homes, communities and businesses, our Committee supports this request to ban wet wipes containing plastic. All flooding to property is very distressing, but where this is contaminated by sewage it is particularly distressing."

Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Cynigion i barhau a symleiddio Cymorth Amaethyddol i Ffermwyr a'r Economi Wledig; Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2020

- 3.40 "The Welsh Government National Strategy for Flood and Coastal Erosion Risk Management (the FCERM Strategy) was formally laid in July at the Senedd for a 40 day period prior to adoption and publication. The consultation on this document identified the opportunity for farming and land management policy to widen the implementation of Natural Flood Management (NFM), to those without direct responsibility for flood risk management. We were pleased to see flood risk mitigation identified as one of the desired outcomes of sustainable land management. We would highlight the requirement in the FCERM Strategy for the number of NFM schemes to be periodically reported to Welsh Ministers. For this to provide a complete picture for Wales this must include the contribution made through the Sustainable Farming Scheme."

Y Papur Gwyn ar Amaethyddiaeth Cymru; Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2020

- 3.41 "In the 2019 Consultation we were pleased to see flood risk mitigation identified as one of the desired outcomes of sustainable land management. Given this, the



scale of the present day and future flooding risks faced by Wales and the significant links between flood risk, flood risk management, sustainable land management, and catchment approaches to water management, we are surprised that there is no reference in this White Paper Consultation to flood, flood risk management or Natural Flood Management (NFM). We are however, to a degree, reassured by the 35 plus references to flood and flooding in the Integrated Risk Assessment."

- 3.42 *"The latest Welsh Government National Strategy for Flood and Coastal Erosion Risk Management (the FCERM Strategy) was published on 19th October 2020. It is essential that the policy framework which is developed from this White Paper Consultation is aligned with and supports delivery of the aspirations and objectives of the FCERM Strategy; in particular the delivery of NFM, on both a local and catchment scale."*
- 3.43 *"The climate change focus of the White Paper is on reducing the Welsh agricultural sector's contribution to global emissions (Climate Change Mitigation). We would request that a comparable emphasis is given to how sustainable land management can support adaptation and help increase resilience in our environment to the consequences of climate change, such as extreme weather and flooding, (Climate Change Adaptation)."*

Adborth gan Aelodau'r Pwyllgor

- 3.44 Yn ogystal â'r 12 Thema, mae Rhaglen Waith y Pwyllgor yn cynnwys gweithgareddau gweinyddol, yn eu plith yr arfarniadau blynyddol o Aelodau'r Pwyllgor. Cynhelir yr arfarniadau hyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac maent hefyd yn cynnig adborth ar brosesau ac allbynnau'r Pwyllgor. Gweler crynodeb isod.
- 3.45 Mae lefelau presenoldeb mewn cyfarfodydd yn parhau i fod yn dda. Er bod pawb sy'n gweithio i FCERM wedi bod o dan bwysau gwaith mawr dros y flwyddyn, cafwyd lefel presenoldeb o 93% ar gyfartaledd drwy gydol y flwyddyn ar gyfer y prif Bwyllgor, a 92% ar gyfer yr Is-bwyllgorau. Mae lefelau ymrwymiad Aelodau'r Pwyllgor, a lefelau'r gefnogaeth gan randdeiliaid i ryddhau Aelodau i fynychu cyfarfodydd, yn parhau'n uchel. Mae Aelodau'r Pwyllgor wedi ymrwymo'n gadarnhaol i gynnal momentwm ffrydiau gwaith sefydledig. Mae'r farn ar gynnydd bod cymryd rhan yn y Pwyllgor yn ehangu gwybodaeth a phrofiad ei Aelodau. Mae'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu wedi parhau i allu cymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor.
- 3.46 Er bod y pandemig wedi effeithio ar waith y Pwyllgor, ac y bu'n rhaid canslo un cyfarfod o'r prif Bwyllgor, mae boddhad cyffredinol â'r trefniadau amgen sydd wedi'u gwneud, ac ni welwyd arwydd bod momentwm y Rhaglen Waith yn pallu. Serch hynny, mae brwdfrydedd dros ailgychwyn cwrdd yn gorfforol. Parheir i werthfawrogi lefelau cysylltu a chydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru.
- 3.47 Mae ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru yn dal i gael ei ystyried yn flaenoriaeth allweddol, a cheir boddhad â'r dystiolaeth gynyddol bod cyngor y Pwyllgor yn dylanwadu ar bolisi. Serch hynny, gellid gwneud mwy i godi proffil cyngor y Pwyllgor. Ystyrir bod yr ymgysylltu cynyddol â'r grwpiau llifogydd rhanbarthol yn gryfder allweddol, gyda'r grwpiau eu hunain yn tystio eu bod yn elwa ar y berthynas. Mae croeso i'r ffrydiau gwaith ffocws drwy'r Is-bwyllgorau newydd, er gwaethaf y llwyth gwaith heriol i aelodau'r Is-bwyllgor. Fodd bynnag,

Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru Wales Flood and Coastal Erosion Committee

mae pryderon parhaus ynghylch gallu'r Pwyllgor i ysgwyddo rhagor o lwyth gwaith.



4. Edrych tua'r Dyfodol

- 4.1 Er bod effaith y pandemig ar raglenni gwaith yn lleihau, bydd cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai 2021 yn dal i gael ei gynnal o bell. Gobeithir y bydd cyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi yng Nghasnewydd yn gallu cael ei gynnal yn unol â'r bwriad. Gan fod cytundeb bellach i gynnal cyfarfodydd corfforol a chyfarfodydd o bell am yn ail, bydd y cyfarfod sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr 2022 unwaith eto yn un o bell. Wrth barhau i gynnal rhaglen waith tair blynedd, bydd cyfarfod mis Medi yn ceisio estyn y rhaglen i 2023/24.

Y Rhaglen Waith yn 2020-21 a 2022-23

- 4.2 Bwriedir parhau â'r cynnydd ar Themâu 1, 2, 4, 5, 6, 7 a 10, fel yr amlinellir yn adrannau 2 a 3. Bydd adroddiadau'r ddau Is-bwyllgor i'r Pwyllgor yn ddigwyddiadau allweddol yn ystod y flwyddyn, gyda'r Is-bwyllgor Adnoddau yn cyflwyno adroddiad ym mis Medi 2021, a'r Is-bwyllgor Polisi a Deddfwriaeth yn cyflwyno adroddiadau ym mis Ionawr a mis Mai 2022. Bwriedir symud gweddill y themâu ymlaen dros y ddwy flynedd nesaf yn y drefn ganlynol:

Blaenoriaeth Gyntaf

- Thema 8 – Cyfrannu at baratoi Pecyn Addasu'r Arfordir.

Ail Flaenoriaeth

- Thema 12 – pennu gofynion lefel uchel a chanllawiau ategol ar gyfer adroddiadau Adran 19 yr ymchwiliadau i lifogydd fydd yn cael eu paratoi gan awdurdodau lleol.

Trydedd Flaenoriaeth

- Thema 3 – Tynnu sylw at arferion da yn FCERM (gweler hefyd para 4.3);
- Thema 9 – **D**ylanwadu ar raglenni ymchwil a'r ymchwil sydd ei hangen, a lledaenu ffrwyth yr ymchwil honno; (gweler hefyd para 3.29);
- Thema 11 – Cydnerthedd ehangach a pholisi argyfwng o safbwynt FCERM.

- 4.3 Er blaenoriaethu'r themâu hyn yn eu tro, mae'r llifogydd mawr a gawsom ym mis Chwefror yn golygu bod mater eiddo diyswiriant yn mynnu'n sylw unwaith eto. O ganlyniad, bydd cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai 2021 yn clywed cyflwyniadau ar arferion da ym maes yswiriant llifogydd gan Gymdeithas Yswirwyr Prydain a Flood Re, cynllun ar y cyd rhwng y Llywodraeth ac yswirwyr i wneud yswiriant llifogydd yn fwy fforddiadwy.

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

(Mae cyfeiriadau at "Rheoliadau" yn cyfeirio at Reoliadau Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru 2017).¹⁵

Diben

1. Sefydlwyd y Pwyllgor gan Adran 81 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Ei ddiben yw cynghori Gweinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Cwmpas (rheoliad 8)

2. Cwmpas gwaith y Pwyllgor yw cynghori ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Aelodau'r Pwyllgor (rheoliadau 3-5)

3. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys Cadeirydd a hyd at 14 o aelodau eraill sydd naill ai'n arbenigo ar faterion y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn berthnasol, neu'n gynrychiolydd enwebedig sefydliad rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Dyletswyddau (rheoliad 9)

4. Rhaid i'r Pwyllgor gynghori Gweinidogion Cymru ynghylch:
- Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol o bob ffynhonnell;
 - Materion ehangach o ran cydnerthedd ar argyfyngau o safbwynt rheoli perygl llifogydd;
 - Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol; a
 - Gwaith a gyflawnir gan sefydliadau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Pwerau

5. Caiff y Pwyllgor:
- Sefydlu rhaglen ei hun o waith cynghori ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru (rheoliad 10);
 - Cynghori awdurdodau rheoli risg Cymru ynghylch rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol o bob ffynhonnell;
 - Cynghori awdurdodau rheoli risg Cymru ynghylch materion ehangach o ran cydnerthedd ac argyfyngau o safbwynt rheoli perygl llifogydd (rheoliad 10);
 - Cynghori awdurdodau rheoli risg Cymru ar y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (rheoliad 10);
 - Ymrwmo i gytundebau gyda chyrff eraill, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru (rheoliad 10);
 - Penodi aelodau eraill o'r Pwyllgor fel ei gynrychiolwyr ar fforymau neu bwyllgorau eraill.

Cyfarfodydd (rheoliad 11)

6. Rhaid i'r Pwyllgor gynnal ei gyfarfodydd fesul ysbaid o ddim mwy na 6 mis.

¹⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/827/contents/made/welsh>



7. Mae'r Pwyllgor yn gorff cyhoeddus o fewn ystyr Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960. Yn unol â hynny, bydd cyfarfodydd y Cyngor yn agored i'r cyhoedd [Adran 81(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Rhan 4 o Atodlen 2].

Adroddiadau (rheoliad 12)

8. Rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru ar y modd y bu iddo arfer a chyflawni ei swyddogaethau yn ystod pob cyfnod o 12 mis, yn dilyn penodi aelodau i'r Pwyllgor.

Gweithdrefn (rheoliad 13)

9. Caiff y Pwyllgor reoleiddio ei weithdrefn ei hun, gan gynnwys gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r cworwm ar gyfer ei gyfarfodydd (yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru), a'i weithdrefn bleidleisio.

Is-bwyllgorau (rheoliad 14)

10. Caiff y Pwyllgor sefydlu is-bwyllgorau drwy bleidlais fwyafrifol, i gyfarfod yn unol â chyfarwyddyd y Pwyllgor. Caiff y Pwyllgor reoleiddio gweithdrefn unrhyw is-bwyllgor, gan gynnwys ei gworwm a'i weithdrefn bleidleisio. Mae cylch gorchwyl is-bwyllgor yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru.

Cyfathrebu a Gweithio gydag eraill

11. Dylid anfon ceisiadau am gyfweiliadau at Weinidog yr Amgylchedd yn y lle cyntaf drwy'r Ysgrifenyddiaeth. Os nad yw'r Gweinidog ar gael, gellir gofyn i'r Cadeirydd siarad ar ran y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Rhaglen Waith

12. Cytunir ar y rhaglen waith flynyddol gyda Gweinidogion Cymru i sicrhau ei bod yn cynnwys y blaenoriaethau presennol.

Atodiad 2: Taliadau Cydnabyddiaeth a Lwfansau

Mae hawl gan y Cadeirydd i dâl cydnabyddiaeth fesul diwrnod. Nid oes hawl gan Aelodau eraill o'r Pwyllgor i dâl cydnabyddiaeth, ond, fel yn achos y Cadeirydd, gallant hawlio costau teithio a chynhaliaeth. Mae gwariant o dan y penawdau hyn wedi'i nodi isod:

£	Tâl Cydnabyddiaeth	Treuliau	Cyfanswm
2018-19	6,036	150	6,186
2019-20	14,295	2,279	16,574
2020-21	14.520	80	14,600

